



## Gwybodaeth am y Gwobrau a Ffurflen Gais

### CYNNWYS

Nodiadau i ymgeiswyr .....	2
Rheolau a Rheoliadau .....	3
Rhaglen Blant Orau/Categoriâu Arbennig.....	3
Rheithgorau: Cyflwyno dangosyddion DVD o'ch rhaglen/ffilm ...	4
Rhestr lawn o'r categorïau.....	4
Categoriâu – Rhaglen/Ffilm ac Arbenigedd.....	5
Categoriâu – Crefft/Perfformiad.....	6
Ffurflen Gais: Manylion gwneud cais.....	7
Ffurflen Gais: Manylion Cyswllt a Ffioedd Ymgeisio .....	8
Talu.....	9
Gwybodaeth Ychwanegol.....	10

*Mae ffioedd ymgeisio yn gymwys i bob categori*

### PWYSIG - Darllenwch os gwelwch yn dda

Mae rhai newidiadau cyffrous i Wobrau Academi Brydeinig Cymru eleni. Am y tro cyntaf rydym yn gobeithio cynnig cyfle i bob ymgeisydd roi eu rhaglenni/ffilmiau ar-lein ar gyfer aelodaeth pleidleisio BAFTA yng Nghymru fel gwasanaeth dal i fyny, pan fydd pleidleisio ar-lein yn digwydd. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei osod ar wefan ddiogel a fydd ar gael yn unig i aelodau pleidleisio BAFTA yng Nghymru. Anfonir manylion pellach am y gwasanaeth hwn at ymgeiswyr yn nes ymlaen yn y broses.

Rhan o gylch gwaith BAFTA Cymru yw hyrwyddo rhagoriaeth i gynulleidfa mor fawr â phosibl. Er mwyn cyflawni hyn, mae BAFTA Cymru yn bwriadu darparu clipiau o'r rhaglenni a Enwebwyd ar gyfer Gwobrau Academi Brydeinig Cymru i'r cyhoedd ar wefan BAFTA yng Nghymru, [www.bafta.org/wales](http://www.bafta.org/wales).

Drwy gyflwyno eich rhaglen ar gyfer ystyriaeth rydych yn rhoi caniatâd i unrhyw glipiau (yn cynnwys unrhyw draciau sain sydd yn y clipiau) fod ar gael ar wefan BAFTA yng Nghymru i ddibenion heb fod yn fasnachol yng nghyd-destun y Gwobrwyon o Mai 2011.

Mae hwn yn gam pwysig iawn i BAFTA Cymru a diolchwn i chi am eich cefnogaeth

#### Cyswllt:

BAFTA yng Nghymru

T: 02920 223898

F: 02920 664189

E: [awardscymru@bafta.org](mailto:awardscymru@bafta.org)

G: [www.bafta.org/cymru](http://www.bafta.org/cymru)



## Nodiadau i Ymgeiswyr

### Ceisiadau

1. Teledu (a gwaith rhyngweithiol): rhaid i geisiadau fod wedi'u darlledu naill ai ar sianel deledu daearol neu ddigidol (neu ei chyhoeddi) rhwng 1 Ionawr – 31 Rhagfyr 2010.

2. Ffilm: rhaid i bol cais fod wedi'u rhyddhau yn theatrig (am 7 diwrnod o leiaf)/ wedi'u dangos mewn gŵyl gymeradwy rhwng 1 Ionawr – 31 Rhagfyr 2010. **Mae rhestr o wyliau cymeradwy ar gael gan BAFTA yng Nghymru.**

3. Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno yn uniongyrchol gan ddarlledwyr, cynhyrchwyr ac unigolion. Gall unigolion gyflwyno gwahanol benodau/rhaglenni mewn cyfres sydd eisoes wedi'i chyflwyno gan ddarlledwr neu gwmni cynhyrchu. Yn y categori rhyngweithiol ni chaiff ceisiadau o flynyddoedd blaenorol eu hail gyflwyno oni bai bod y cais wedi'i ail weithio'n sylweddol a bod iddo gynnwys newydd. Gall rhaglenni fod yn rhai rhanbarthol neu rhwydwaith.

### 4. Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: DYDD GWENER 28 IONAWR 2011

5. Rhaid defnyddio'r Ffurflen Gais ffurfiol ar gyfer ceisiadau.

6. Gellir cyflwyno ceisiadau fîm lle mae'n briodol ar gyfer categorïau Crefft a Pherfformio. Gallwch ddewis 'Tîm Cynhyrchu' ble mae'n briodol.

7. Caniateir tri enw ar y mwyaf at bob categori, **Camera, Golau a Sain**. Os yw'n briodol nodwch pa rannau penodol o'r rhaglen sydd i'w defnyddio i ddangos gwaith yr ymgeisydd/ymgeiswyr yn y categorïau hyn. (Gwybodaeth Ychwanegol) Os na ellir penderfynu ar dri enw gallwch ddewis 'Tîm Cynhyrchu' a bydd gofyn i chi roi enw hyd at dro 'cynrychiolydd' o'r fîm hwn. Rhaid i'r cynrychiolwyr hyn fod yn rhan o dim creadigol y cynhyrchiad.

8. Gall unigolion enwebu un pennod/rhaglen neu unigolyn yn y categorïau crefft neu perfformiad, yn cynnwys hunan enwebiad.

9. Cyfrifoldeb y cynhyrchydd a'i enwebai yw dethol a chyflwyno penodau, rhaglenni a ffilmiau cynrychioliadol, a nhw fydd â chyfrifoldeb dros y cais.

10. **Yr enwau a gyflwynir ar y ffurflen gais fydd yr enwebiadau swyddogol ac ni ellir eu newid wedyn. Rhaid rhoi ystyriaeth gofalus i bwy yw'r bobl hynny gan na ellir gwneud newidiadau unwaith y cyhoeddir yr enwebiadau.**

11. Dim ond un Gwobr Academi Prydeinig Cymru (Mwgwd) a roddir ar gyfer pob categori.

### NODYN ARBENNIG:

I osgoi unrhyw amheuaeth, gall darlledwyr/cwmnïau cynhyrchu gyflwyno gwahanol benodau o'r un gyfres mewn gwahanol gategoriâu Crefft a Pherfformio, ond dim ond un pennod ym mhob categori RHAGLEN ar gyfer pob cynhyrchiad a ganiateir. Os yw'n cael ei rhoi ar y rhestr fer ar gyfer ystyriaeth y rheithgor dim ond y bennod/rhaglen a gyflwynwyd ar y Ffurflen Gais a gaiff ei hystyried.

### Pleidleisio a Rheithgorau

1. Bydd pob cais yn cael ei roi mewn categorïau a'u hanfon at Aelodau BAFTA Cymru ar gyfer eu pleidlais.

2. Unwaith y mae'r Aelodau wedi bwrw eu pleidlais bydd y rhestr fer o'r ceisiadau gyda'r sgoriau uchaf yn yr holl gategoriâu Rhaglen, Crefft a Pherfformiad yn mynd at reithgorau beirniaid detholedig.

3. Mae caniatâd i'r darlledwyr gyflwyno ceisiadau trac cyflym pellach cyn i'r rheithgor ystyried y rhestr derfynol.

4. Mae pob Rheithgor Beirniad yn cynnwys 5 ymarferydd diwydiant ar draws ystod o ddarlledwyr a chwmnïau annibynnol.

5. Bydd Aelodau o Bwyllgor Rheoli BAFTA Cymru yn Cadeirio pob panel.

6. Mae'r Rheithgor yn dewis y 3 enwebiad terfynol sydd yn cynnwys yr enillydd cyffredinol.



## Rheolau a Rheoliadau

### Cymhwysedd rhaglen/ffilm (categoriâu rhaglenni)

Dylai ceisiadau ddiwallu dau o'r tri maen prawf canlynol:

1. Fod gan y cwmni cynhyrchu ganolfan fusnes a chynhyrchu sylweddol yng Nghymru. Ystyr sylweddol yn y cyd-destun yma yw gweithle arferol prif swyddogion a staff sydd ynghlwm wrth y cynhyrchiad dan sylw.
2. Bod 50% o leiaf o gyllideb y cynhyrchiad (teledu/rhyngweithiol) / 50% (ffilm) (ac eithrio cost doniau ar sgrin, deunydd archif a chostau hawlfraint) wedi'i wario yng Nghymru ac/neu ar dalent cynhyrchu Cymreig.
3. Fod o leiaf 50% o'r doniau cynhyrchu (nid y doniau ar y sgrin) naill ai yn byw neu'n gweithio fel arfer yng Nghymru. Rhaid i hyn gynnwys isafswm o 4 allan o'r 9 maes canlynol: Cyfarwyddwr, Cynhyrchydd, Awdur, Cynhyrchydd Llinell/Rheolwr Gynhyrchu, HOD – Celf, Sain, Camerâu, ôl gynhyrchu, Cyfansoddwr. (Ar gyfer ceisiadau ffeithiol gellir disodli hyd at ddwy o'r rolau hyn gan Olygydd/Cynhyrchydd Cynorthwyl)

### Meini prawf categori perfformiad unigol a chreffft unigol

Rhaid i ymgeiswyr unigol ar gyfer categorïau perfformiad a chreffft gael eu hystyried yn Gymreig a byddant yn gymwys ar gyfer perfformiadau neu gyfraniadau i raglenni neu ffilmiau sydd yn diwallu'r meini prawf uchod

Bydd ymgeiswyr yn y categorïau perfformiad unigol ac unigolion yn y categorïau crefft yn cael eu hystyried yn Gymreig trwy ddiwallu un neu ragor o'r meini prawf canlynol: geni yng Nghymru, rhieni (un/dau riant yn Gymry neu yn preswyllo yng Nghymru (preswyl am 3 blynedd o leiaf)

Ni dderbynnir cynrychiadau sydd wedi cael eu hail-olygu, hail-weithio, hail-enwi na'u hail-ddarlledu. Mae rhaglenni/ffilmiau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gymwys ym mhob categori. Rhaid i bob cais fod yn rhaglen/ffilm/cynhyrchiad rhyngweithiol cyflawn. Nid yw mewnosodiadau yn gymwys

### NODYN ARBENNIG:

Categoriâu Rhaglen/Ffilm: os oes llai nag 5 cais mewn unrhyw gategori arbennig, yna ni ystyrir hwy ar gyfer gwobrwyo eleni ond fe ellid eu hystyried flwyddyn nesaf. Serch hynny, bydd unrhyw geisiadau crefft neu berfformiad a berthyn i ffilm neu raglen sydd oherwydd y rheol uchod heb eu hystyried, yn gymwys i gael eu hystyried ELEN!

## Rhaglen Blant a Chategoriâu Arbennig

Ni fydd categorïau arbenigol (yn ychwanegol at Raglen Blant) yn amodol i bleidlais aelodaeth.

### RHAGLEN BLANT

Bydd ceisiadau ar gyfer Rhaglen Blant yn cael eu cyflwyno i drawstoriad cynrychiadol o ysgolion cynradd Cymru ac fe ofynnir i'r athrawon gyflwyno'r **Rhestr Ceisiadau ar DVD o'r rhaglenni i'r plant**. Gofynnir i'r plant bleidleisio am y 4 rhaglen orau. Bydd y pleidleisiau hyn yn cael eu hanfon i Swyddfa BAFTA Cymru a bydd yn rhan o'r rhestr fer ar gyfer rheithgor beirniad y Rhaglen Blant. Derbynnir ceisiadau Animeiddio sydd yn addas i'r rhai hyd at 11 oed.

### NODYN ARBENNIG

Bydd yr ystod cynrychioliadol o ysgolion cynradd angen copi DVD o uchafbwyntiau hyd at 5 munud o hyd (gydag is-deitlau Saesneg fel bo'n briodol). Dylai pob cais ar gyfer y Rhaglen Blant gynnwys copi DVD o uchafbwyntiau i'r diben uchod.

### CATEGORIÂU ARBENNIGOL

Bydd ceisiadau yn y categorïau arbenigol **Ffurf Byr, Cyfryngau Newydd a Theitlau** cael eu beirniadu gan rheithgor o feirniad arbenigol a ddetholwyd gan Gadeirydd pob categori (mae cadeiryddion y rheithgorau beirniadu wedi'u cynrychioli gan Aelodau o Bwyllgor Rheoli BAFTA Cymru). **Mae ffurflenni cais a chanllawiau ar wahân ar gael o Swyddfa BAFTA Cymru. Dyddiad Cau Ceisiadau: DYDD LLUN 14 CHWEFROR 2011**



## Rheithgorau: Cyflenwi dangoswyr DVD o'ch rhaglen/ffilm

1. Os ydy'ch rhaglen/ffilm ar y rhestr fer ar gyfer ystyriaeth gan y Rheithgor bydd angen i chi gyflenwi 6 copi DVD ar gyfer pob pennod/rhaglen.
2. Bydd BAFTA yng Nghymru yn cysylltu gyda'r cynhyrchedd/person sydd yn gyfrifol am y cais dim hwyrach na DYDD MAWRTH 1 MAWRTH 2011.
3. Byddwch yn derbyn rhybudd o 7 diwrnod gwaith i gyflwyno copïau DVD i swyddfa BAFTA yng Nghymru. Dim ond ar fformat DVD y bydd rhaglenni/ffilmiau yn cael eu derbyn ar gyfer ystyriaeth y Rheithgor.
4. Rhaid i'r DVDs fod o ansawdd derbyniol ar gyfer eu gwyllo a rhaid iddynt fod ar yr un fformat a chynnwys â'r hyn a ddarledwyd/sgriniwyd yn wreiddiol heb yr egwyl hysbysebu. Dylai pob rhaglen/ffilm Gymraeg fod ag is-deitlau Saesneg.
5. **Os caiff ei rhoi ar y rhestr fer dim ond y penodau y mae'r unigolion a enwyd wedi gweithio arnynt sydd yn gallu cael eu cyflwyno.**
6. Nodwch y bydd disgwyl i'r rheiny sy'n danfon rhaglen/ffilm dalu unrhyw gostau dyblygu/cludo'r copïau DVD i BAFTA yng Nghymru.
7. Cedwir yn llym at yr holl reolau.

### NODYN ARBENNIG

Pe digwydd i'ch rhaglen/ffilm gael ei henwebu ar gyfer Gwobr byddwch yn ymgymryd i gyflwyno i BAFTA yng Nghymru drwydded BAFTA yng Nghymru wedi'i chwblhau, sydd yn cynnwys caniatâd ar gyfer ei defnyddio trwy we ddarlediad neu ddarlediad teledu ynghyd â gwarant mai'r trwyddedai sydd yn gyfrifol am hawliau trydydd parti. Rhaid cael copïau o unrhyw ganiatadau ac unrhyw gostau a dalwyd gyda'r drwydded BAFTA yna Nghymru.

## Rhestr lawn o'r categorïau

### CATEGORÏAU RHAGLENNI:

1. **FFILM NODWEDD/TELEDU**
2. **DRAMA TELEDU**
3. **RHAGLEN NEWYDDION A MATERION  
CYFOES A CHWARAEON**
4. **CYFRES FFEITHIOL**
5. **RHAGLEN DDOGFEN SENGL**
6. **RHAGLEN CERDDORIAETH AC ADLONIAENT**

### CATEGORÏAU ARBENNIG:

7. **RHAGLEN BLANT**
8. **FFURF BYR**
9. **CYFRYNGAU NEWYDD**
10. **TEITLAU**

### CATEGORÏAU CREFFT:

11. **DYLUNIO GWISGOEDD**
12. **GOLYGU: FFUGLEN**
13. **GOLYGU:FFEITHIOL**
14. **CYFARWYDDWR: FFUGLEN**
15. **CYFARWYDDWR: FFEITHIOL**

### CATEGORÏAU CREFFT (PARHAD)):

16. **CYFARWYDDWR FFOTOGRAFFI: FFUGLEN**
17. **CAMERA**
18. **DYLUNIO CYNHYRCHIAD**
19. **COLURO A GWALLT**
20. **CERDDORIAETH**
21. **SAIN**
22. **GOLEUO**
23. **DARLLEDIAD O DDIGWYDDIAD BYW**
24. **AWDUR**

### CATEGORÏAU PERFFOMIAD:

25. **ACTOR**
26. **ACTORES**
27. **CYFLWYNYDD**



## Categoriâu Rhaglenni

### **FFILM NODWEDD/TELEDU**

Ar gyfer ffilm neu ddrama a gynhyrchwyd ar gyfer dangosiad theatrig neu deledu dim mwy na 75 munud.

### **DRAMA DELEDU**

Am ddrama sengl o hyd at 75 munud neu bennod o gyfres, mewn rhifynnau neu ddrama barhaus.

### **RHAGLEN NEWYDDION, MATERION CYFOES A CHWARAEON**

Ar gyfer rhaglen newyddion/materion cyfoes/chwaraeon unigol neu am un rhaglen yn unig neu raglen unigol benodol neu raglenni mewn cyfres yn adrodd ar bwnc cyfredol sydd yn datblygu neu darllediad newyddion hyd at awr o hyd ar ddigwyddiad penodol wedi'i saethu yn y stiwdio neu ar leoliad.

### **CYFRES FFEITHIOL**

Am gyfres o raglenni ffeithiol yn gysylltiedig trwy ymagwedd unedig, naratif neu ddatblygiad thematig pwnc, yn cynnwys rhaglenni dogfen, rhaglenni celfyddydau arbenigol, gwyddoniaeth a hanes, coginio, garddio, dull o fyw, trafodaethau stiwdio a rhaglenni adloniant ffeithiol. Dim ond un bennod o'r gyfres o gellir ei chyflwyno.

### **DOGFEN SENGL**

Am raglenni dogfennau unigol yn unig. Yn cynnwys rhaglenni dogfen a ryddhawyd yn theatrig a phenodau unigol o linyddau ffeithiol neu ddogfennol. **NODYN ARBENNIG:** Gellir ystyried y ceisiadau yn y categori hwn ar gyfer Gwobr Gwyn Alf Williams: am raglen neu gyfres o raglenni sydd wedi cyfrannu fwyaf at ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hanes Cymru.

### **RHAGLEN CERDDORIAETH AC ADLONIAINT**

Am raglen unigol neu raglen benodol sy'n rhan o gyfres mewn stiwdio neu ar leoliad. Gall hyn gynnwys rhaglenni cerddoriaeth, sioeau adloniant cyffredinol, sioeau amrywiaeth, sioeau gemau, cwis, gemau panel, sioeau sgwrsio, comedi stand-yp a chomedi sgetsys. Mae Comedi Naratif fel comedi sefyllfa a chomedi drama wedi'u heithrio ac yn cael eu hystyried yn 'Gyfresi a Rhifynnau Drama.

**NODYN ARBENNIG:** Ar gyfer rhaglenni ieuencid wedi'u hanelu at rai 12 oed a throsodd derbynir ceisiadau mewn unrhyw gategori rhaglen perthnasol.

## Categoriâu Arbenigol

### **RHAGLEN BLANT**

Am raglen unigol neu raglen benodol sy'n rhan o gyfres wedi'i anelu at blant hyd at 11 oed. Gellir cynnwys animeiddio yn y categori hwn.

### **FFURF FER**

Ar gyfer ffilmiau byr (animeiddio/gweithrediad byw/cyfyngau cymysg) hyd at 30 munud o hyd. Caniateir ceisiadau gan fyfyrwyr yn y categori hwn. (Mae ffurflenni cais ar wahân ar gael)

### **CYFRYNGAU NEWYDD**

Ar agor i unrhyw ffurf o gyfryngau rhyngweithiol (yn cynnwys y we, ffonau symudol, IPTV, botwm coch neu unrhyw gyfuniad traws blatfform) yn cynnwys y defnydd o ddelwedd symudol nad yw'n gynwysedig mewn unrhyw gategori arall a lle mae'r pwyslais ar greadigrwydd ac ymgysylltiad y gwylwyr trwy'r ddelwedd symudol (Mae ffurflenni cais ar wahân ar gael)

### **TEITLAU**

Adnabod gwreiddioldeb, creadigrwydd a rhagoriaeth yn nyluniad a chynhyrchiad y rhestr teitlau ar gyfer rhaglen/ffilm neu gyfres o raglenni. Mae'n eithrio 'interstitials' ac 'idents'. (Ffurflenni cais ar wahân ar gael)



## Categoriâu Crefft

### **DYLUNIO GWSIGOEDD**

Am ddylunio cyfnod neu cyfoes mewn unrhyw ffilm neu raglen sydd â swm sylweddol o ddylunio gwreiddiol.

### **GOLYGU: FFUGLEN**

Am ffilm, rhaglen unigol neu raglen benodol mewn cyfres ar ffilm neu dâp.

### **GOLYGU: FFEITHIOL**

Am ffilm, rhaglen unigol neu raglen benodol mewn cyfres ar ffilm neu dâp.

### **CYFARWYDDWR: FFUGLEN**

Am ffilm neu ddrama deledu

### **CYFARWYDDWR: FFEITHIOL**

Am unrhyw ffilm neu raglen sydd yn gymwys ar gyfer categori rhaglen ddogfen sengl neu gyfres ffeithiol.

### **CYFARWYDDWR FFOTOGRAFFI: FFUGLEN**

Am gyfarwyddwr ffotograffi i ffilm neu raglen wedi'i saethu mewn stiwdio neu ar leoliad.

### **CAMERA**

Am waith camera sengl ym maes ffeithiol, adloniant neu unrhyw faes nad yw'n ddrama sydd yn rhaglen unigol neu raglen benodol sy'n rhan o gyfres. Dylai'r rhaglen gynnwys deunydd a saethwyd yn benodol ar gyfer y rhaglen. Pan fo mwy nag un person wedi bod yn ymwneud â'r gwaith camera, yna mae'n rhaid i'r cynhyrchydd neu'r person cyfrifol ddweud yn glir pwy sydd yn cael ei enwi a nodi'r rhannau hynny yn y rhaglen sydd yn arddangos gwaith y sawl a enwyd.

### **DYLUNIO CYNHYRCHU**

Am unrhyw ffilm neu raglen sydd yn cynnwys swm sylweddol o ddylunio cymwys yn ei gyfnod darlledu. Os yw rhaglen mewn cyfres sydd yn parhau yn cael ei rhoi ar y rhestr fer, bydd angen datganiad cefnogi yn amlygu'r gwaith gwreiddiol.

### **COLURO A GWALLT**

Am ddylunio cyfnod neu gyfoes mewn unrhyw ffilm neu raglen sydd â swm sylweddol o'r dylunio gwreiddiol..

### **CERDDORIAETH GWREIDDIOL**

Am gyfansoddiad gwreiddiol a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer ffilm neu raglen mewn unrhyw genre. Caiff cerddoriaeth sydd yn mynd gyda chredydau agor a chau eu hystyried yn ogystal â sgoriau wedi'u cwblhau. Os caiff rhaglen ei rhoi ar y rhestr fer efallai y bydd angen dalenni ciw.

## Categoriâu Crefft (parhad)

### **SAIN**

Am ffilm, rhaglen unigol neu raglen benodol sy'n rhan o gyfres. Pan fo mwy nag un person wedi bod yn ymwneud â'r sain (e.e. ôl-gynhyrchu) dylid nodi ai unigolyn neu dîm (hyd at 3 aelod) sy'n cael ei enwi. Os yw'r cais am unigolyn, mae'n rhaid i'r cynhyrchydd neu'r person cyfrifol ddweud yn glir pwy sydd yn cael ei enwi a nodi y rhannau hynny yn y rhaglen sydd yn arddangos gwaith y sawl a enwebwyd.

### **GOLEUO**

Ar gyfer goleuo gwreiddiol yn y stiwdio neu ar leoliad mewn unrhyw 'genre'. NID yw ar gyfer gwaith camera. Pan fo mwy nag un person wedi bod yn ymwneud â'r goleuo, yna mae'n rhaid i'r cynhyrchydd neu'r person cyfrifol ddweud yn glir pwy sydd yn cael ei enwi a nodi'r rhannau hynny yn y rhaglen sydd yn arddangos gwaith y sawl a gyflwynwyd.

### **DARLLEDIADO DDIGWYDDIAD BYW**

Am ddarllediad heb ei olygu o ddigwyddiad sydd yn sefyll ar ei ben ei hun a drefnwyd gan drydydd parti (heb fod dan reolaeth Cwmni Cynhyrchu). Os bydd ar y rhestr fer dim ond un awr o ddarlledu a ganiateir.

### **AWDUR**

Ar gyfer ffilm unigol, rhaglen neu raglen benodol mewn cyfres mewn unrhyw genre, yn cynnwys sgriptiau ffeithiol.

## CATEGORIAU PERFFORMIAD

### **ACTOR**

### **ACTORES**

Mae'r ddau categori actio ar gyfer ffilm neu ddrama deledu. Nodwch ar y ffurflen gais enw'r cymeriad a chwaraeir gan yr ymgeisydd. Dylai perfformwyr gael eu cyflwyno yn unol â'u safle yng nghorff y gwaith a ddarlledwyd yn ystod y cyfnod cymhwys.

### **CYFLWYNYDD**

Am waith cyflwynydd unigol am raglen benodol mewn unrhyw genre (nid corff o waith)



## Ffurflen Gais - Tudalen 1 o 4: Manylion Enwebiad

- Llanwch y ddwy dudalen gan ddefnyddio LLYTHRENNAU BRAS
- Ar gyfer Ceisiadau ychwanegol llun gopiŵch/defnyddiwch ffurflenni ychwanegol fel bo'r angen.
- Darparwch UN ffurflen gais ar gyfer pob cais Rhaglen/Pennod/Ffilm
- Rhaid i bob rhaglen/ffilm a gwaith rhyngweithiol fod wedi'u darlledu/sgrinio rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2010.
- *Gweler Ffurflenni Cais a dyddiadau cau ar wahân ar gyfer categorïau Ffurf Byr, Cyfryngau Newydd a Theitlau.*

### DYDDIAD CAU AR GYFER ENWEBIADAU: DYDD GWENER 28 IONAWR 2011

#### MANYLION CYNHYRCHU

Enw'r Rhaglen/Ffilm

Pennod *(rhaid dewis un yn achos cyfres)*

Hyd (munudau)

Dyddiad Darlledu

Sianel Ddarlledu

#### MANYLION CAIS RHAGLEN (Nodwch RHIF Categori ac Enw Categori)

Categoriâu Rhaglenni/Rhif

--	--

Enw'r Cynhyrchydd

*(Enw'r Enwebai)*

#### MANYLION CAIS CREFFT A PHERFFORMIAD ( Nodwch RHIF Categori ac Enw Categori )

Categori Crefft a Pherfformiad/Rhif

--	--

Enw'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr

--	--

Categori Crefft a Pherfformiad/Rhif

--	--

Enw'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr

--	--

Categori Crefft a Pherfformiad/Rhif

--	--

Enw'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr

--	--

Categori Crefft a Pherfformiad/Rhif

--	--

Enw'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr

--	--

Categori Crefft a Pherfformiad/Rhif

--	--

Enw'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr

--	--

#### CREDYDAU CYNHYRCHU (GWYBODAETH YCHWANEGOL – TUDALEN 10)

Dylech restru'r bobl sydd yn gyfrifol am y rhaglen/ffilm a gyflwynwyd. Os ydych yn cyflwyno cyfres rhaid i chi ddewis un bennod o'r gyfres ac yna datgan yr enwau sydd yn berthnasol i'r bennod honno. Neu gellir cyflwyno'r holl dîm cynhyrchu. Noder pe digwydd enwebiad, yr enwau ar y ffurflen gais hon fydd yr enwebiadau swyddogol ac ni ellir eu newid wedyn.



BRITISH ACADEMY  
CYMRU AWARDS

## Ffurflen Gais – Tudalen 2 o 4: Manylion Cyswllt a Ffioedd Ymgeisio

Llanwch mewn LLYTHRENNAU BRAS

### MANYLION CWMNI CYNHYRCHU/CYSWLLT

Enw Cyswllt

Enw Cwmni

Cyfeiriad

  
  

E-bost

Ffôn

### Ffioedd Ymgeisio:

#### Darledwyr/Dobsarthwyr/Annibynwyr/Unigolion:

Ceisiadau Pecyn (1 cais Rhaglen a 5 cais Crefft a Pherfformiad)	£100.00 +TAW @ <i>ar y gyfradd gymwys</i>
Cais Sengl (ceisiadau Rhaglen, Crefft a Pherfformiad/hunan enwebiad)	£50.00 +TAW @ <i>ar y gyfradd gymwys</i>
Cais Sengl (Animeiddio ffilm fer, Cyfryngau Newydd a Theitlau)	£50.00 +TAW @ <i>ar y gyfradd gymwys</i>

Mae Pecynnau Ymgeisio yn berthynol i gais UN Rhaglen benodol ac mae'n cynnwys hyd at 5 cais ychwanegol yn y categorïau Crefft a Pherfformiad wrth iddynt fod yn berthynol i'r rhaglen/ffilm/pennod hon

Byddai ceisiadau sengl o wahanol raglen/ffilm/pennod hefyd yn destun ffi Cais Sengl (fel y nodir uchod)

Dylid gwneud sicciau am ffioedd yn daladwy i BAFTA Cymru

Caiff unrhyw sylwadau, anawsterau neu anghydfodau eu cyfeirio at Bwyllgor Rheoli BAFTA yng Nghymru ar gyfer beirniadu. Mae penderfyniad y Pwyllgor Rheoli yn derfynol.





BRITISH ACADEMY  
CYMRU AWARDS

## Ffurflen Gais – Tudalen 3 o 4: Talu

Llanwch trwy ddefnyddio LLYTHRENNAU BRAS

**DULL TALU** Rhowch 'X' mewn un blwch

Cerdyn  Siec

Credyd/Debyd

### MANYLION CERDYN CREDYD/DEBYD

Math Cerdyn Visa  Mastercard  Solo  Maestro

Rhif Cerdyn  /  /  /

Dilys o  /   /  Rhif Cyhoeddi

Cod Diogelwch  Debydwch fy ngherdyn mewn punnoedd sterling £

**MANYLION DEILIAD Y CERDYN** Llanwch yr adran hon os ydych yn talu trwy gerdyn neu anfoneb

Enw	<input type="text"/>		
E-bost	<input type="text"/>		
Cyfeiriad	<input type="text"/>		
Tref/Dinas	<input type="text"/>		
Sir	Cod Post	<input type="text"/>	
Llofnod Deiliad Cerdyn	Ffôn	<input type="text"/>	
	Dyddiad	<input type="text"/>	

### MANYLION SIEC (ychwanegwch TAW ar y gyfradd gymwys)

Amgaeaf siec mewn punnoedd sterling £  *Sieciau'n daladwy io BAFTA Cymru*

### DATGANIAD

Rwyf wedi darllen, deall a chytuno i gadw at amodau ymgeisio'r Gwobrau a thelerau ac amodau Academi Ceflyddyddau Ffilm a Theledu Prydeinig yng Nghymru.

Caiiff unrhyw sylwadau, anawsterau neu anghydfodau eu cyfeirio at Bwyllgor Rheoli BAFTA yng Nghymru ar gyfer beirniadu. Mae penderfyniad y Pwyllgor Rheoli yn derfynol.

Llofnod  Dvddiad

ANFOWCH AT: BAFTA yn Nghymru Wales, Chapter, Heol y Farchnad, Treganna, Caerdydd, CF5 1QE  
Ffon 029 20 223898 Ffacs 029 20 664189 E-bost awardscymu@bafta.org

DYDDIAD CAU ar gyfer y cyfan yw dydd Gwener 28 Ionawr 2011

Rhif cofrestru TAW: 653 3113 65 AT ddefnydd y Swyddfa yn unig:  CYM / ENT / 10 /



BRITISH ACADEMY  
CYMRU AWARDS

## Ffurlen Gais – tudalen 4 o 4: Gwybodaeth Ychwanegol

Llanwch trwy ddefnyddio LLYTHRENNAU BRAS

A series of horizontal dotted lines for writing.